
IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

15 Hydref 2026

TEITL: Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2026/27-2029/30

AWDUR: Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) ddrafft a Chynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) ddrafft gysylltiedig i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w hystyried.
- 1.2. Cyflwynwyd Strategaeth a'r Cynllun i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn ei gyfarfod ar 25 Medi 2026:
[Adroddiad Blaen](#)
[Atodiad 1 – Strategaeth Ariannol Tymor Canolig](#)
[Atodiad 2 – Cynllun Ariannol Tymor Canolig](#)
- 1.3. Cyflwynir fersiwn ddiwygiedig i'r Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n ymgorffori sylwadau ac arweiniad y CBC. Bydd y fersiwn derfynol yn cael ei gyflwyno i'r CBC ar 20 Tachwedd 2026.

2. PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Adolygu cynnwys y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ddrafft a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig drafft a chynnig sylwadau arnynt cyn i'r dogfennau gael eu cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar 20 Tachwedd 2026.

3. RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn nodi Egwyddorion Strategol lefel uchel Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd o dan y penawdau canlynol:
 - Dewisiadau cynaliadwy
 - Cyllid a mantolen wydn
 - Portffolio cyflawnadwy ac adnoddau corfforaethol
 - Llywodraethu a phartneriaeth dryloyw
- 3.2. Mae'r strategaeth yn nodi sut y bydd y CBC yn gwneud dewisiadau ariannol cynaliadwy, yn rheoli ansicrwydd ac yn cynnal y gallu i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol a'i raglenni rhanbarthol y cytunwyd arnynt dros y cyfnod CATC presennol. Mae'n gosod y fframwaith strategol, archwaeth risg, rheolau penderfynu a disgwyliadau llywodraethu y mae'r CATC yn cael ei baratoi, ei herio, ei gymeradwyo a'i fonitro. Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu'n flynyddol a'i chyflwyno yn unol â'r cynllun ariannol.

- 3.2. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn nodi'r rhagolygon ariannol ar gyfer y cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2027.
- 3.3. Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf sydd ar gael am y newid mewn incwm y bydd y CBC yn ei dderbyn dros y cyfnod (yn bennaf trwy ardoll a Grant y Llywodraeth), a'r gofynion gwariant ychwanegol dros yr un cyfnod.
- 3.4. Bydd mabwysiadu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn caniatáu i'r CBC ystyried y gwaith sydd ei angen i greu cynlluniau manwl i fynd i'r afael â'r gofynion cyllido ar gyfer 2027/28 – 2029/30. Ar ôl mabwysiadu'r CATC, bydd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2027/2028 yn cael ei chyflwyno i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 15 Rhagfyr 2026 ac yna i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar 29 Ionawr 2027, fel sy'n ofynnol gan statud.
- 3.5. Yn ei gyfarfod ar 19 Mehefin 2026, gofynnodd y Cyd-bwyllgor Corfforedig am adroddiadau pellach i ddarparu rhagor o wybodaeth ynglŷn:
- Staff CBC dros y tair blynedd diwethaf a'r cynlluniau wrth symud ymlaen,
 - darparu dadansoddiad o'r tanwariant a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn dros y blynyddoedd nesaf ynghyd â'r ganran ofynnol o gronfeydd wrth gefn.
 - Unrhyw rwymedigaethau ariannol o ohirio'r ardoll ar gyfer 2027-28
- 3.6. Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr atodiadau yn darparu'r wybodaeth ganlynol ar yr ail a'r trydydd pwynt a ddangosir uchod:
- Ni ragwelir unrhyw danwariant ar weithgareddau CBC ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27, fel y dangosir yn adroddiad adolygu'r gyllideb sy'n eitem ar wahân ar agenda'r cyfarfod. Yn y cyd-destun hwn, nid yw "gweithgareddau'r CBC" yn cynnwys y Cynllun Twf, Parth Buddsoddi na'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, sy'n destun trefniadau ariannu ar wahân.
 - Ni fyddai defnyddio holl gronfeydd wrth gefn y CBC (ar wahân i 5% o'r gyllideb gros i'w chadw fel cronfa wrth gefn gyffredinol) yn ddigonol i ganiatáu rhewi'r cynnydd ardoll, heb sôn am ohirio'r ardoll ar gyfer 2027-28.
 - Byddai gohirio'r ardoll ar gyfer 2027-28 yn golygu bwlch ariannu o dros £1m a fyddai'n arwain at y CBC yn methu â chyflawni ei ddyletswyddau statudol.
- 3.7. Adroddwyd i'r CBC fod y tabl isod yn dangos costau staffio'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (corfforaethol, trafnidiaeth a chynllunio) a ariennir trwy ardoll neu grant penodol ers 2023/24:

	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27 (amcan)
Costau Gweithwyr	£92,514	£100,566	£368,228	£771,075

4. PENDERFYNIAD Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG

- 4.1. Cyflwynwyd pedair opsiwn i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, gan ofyn i'r aelodau roi arweiniad i swyddogion ynghylch pa un o'r opsiynau uchod sydd orau ganddynt.

Opsiwn 1 - Cadw'r ardoll yr un fath ag yn 2026/27 a defnyddio'r cronfeydd wrth gefn i fantoli'r gyllideb

- 4.2. Yr opsiwn hwn yw rhewi'r ardoll yn 2027/28 ar yr un lefel ag yn 2026/27 a defnyddio cronfeydd wrth gefn i lenwi'r bylchau cyllido, ar ôl cadw 5% o wariant refeniw gros 2027/28 fel Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol. Byddai hyn yn gofyn am £1,148,650 o gronfeydd wrth gefn, nad oes gan y CBC. Felly, nid yw'r cynnig hwn yn ymarferol gan y byddai diffyg cyllido o £308,799.
- 4.3. Gan nad yw rhewi'r ardoll yn ymarferol, mae'n dilyn nad yw peidio â chodi ardoll o gwbl yn 2027/28 yn bosibl ychwaith.

Opsiwn 2 - Cynyddu'r ardoll a pheidio â defnyddio cronfeydd wrth gefn

- 4.4. Gyda'r opsiwn hwn, byddai'r CBC yn cadw'r cronfeydd wrth gefn y mae'n disgwyl eu cael ar ddiwedd 2026/27 ac ni fyddai'n gwneud defnydd pellach ohonynt. Er y byddai hyn yn golygu bod cronfeydd wrth gefn ar gael i fantoli'r gyllideb yn y blynyddoedd i ddod, ni ellir cyfiawnhau hyn gan y byddai'r holl awdurdodau cyfansoddol yn wynebu cynnydd o 113% yn yr ardoll ar gyfer 2027/28.

Opsiwn 3 - Cynyddu'r ardoll a defnyddio cyfran o'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael

- 4.5. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys defnyddio 50% o'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael ar ddechrau pob blwyddyn ariannol ar gyfer 2027/28, 2028/29 a 2029/30. Byddai hyn yn sicrhau cydbwysedd drwy allu defnyddio rhywfaint o'r cronfeydd wrth gefn ym mhob un o'r tair blwyddyn ariannol er mwyn lliniaru'r cynnydd yn yr ardoll. Gyda'r opsiwn hwn, byddai angen cynyddu'r ardoll tua 71% yn 2027/28, ond gyda chynnydd is o tua 10% yn y ddwy flynedd ddilynol.

Opsiwn 4 - Defnyddio'r holl gronfeydd wrth gefn sydd ar gael (£839,850) yn 2027/28

- 4.6. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys defnyddio'r holl gronfeydd wrth gefn sydd ar gael i bennu cyllideb 2027/28, gan gadw'r cynnydd yn yr ardoll ar tua 30%. Effaith hyn yw na fyddai cronfeydd wrth gefn ar gael i fantoli'r cyllidebau yn 2028/29 a 2029/30, gan arwain at gynnydd o dros 60% yn yr ardoll ar gyfer y 6 chynghor cyfansoddol yn 2028/29, ond gyda chynnydd llai yn 2029/30.
- 4.7. **Penderfyniad y Cyd-bwyllgor Corfforedig oedd i ofyn i swyddogion ddarparu opsiwn hybrid sy'n defnyddio 80% o'r reserfau defnyddiadwy sydd ar gael ar 31 Mawrth 2027 fel sail, a fyddai'n golygu cyflwyno opsiwn sy'n disgyn rhwng opsiwn 3 ac opsiwn 4 i'r Aelodau yng nghyfarfod nesaf y CBC.**
- 4.8. Mae Rhan 7.2 o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (Atodiad 2) yn adlewyrchu'r opsiwn yma a'r oblygiadau ariannol o hynny. Fel y gwelir, byddai'n golygu cynnydd yn y lefi ar yr awdurdodau cyfansoddol o 42% yn 2027/28 o'i gymharu â 2026/27.

ATODIADAU:

Atodiad 1: Strategaeth Ariannol Tymor Canolig Ddrafft 2026/27 – 2029/30

Atodiad 2: Cynllun Ariannol Tymor Canolig Drafft 2026/27 – 2029/30

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

Rwyf yn nodi'r Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig ddrafft, yn ogysal â rôl yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wrth adolygu trefniadau ariannol y CBC. Rwyf yn fodlon i'r Is-bwyllgor ystyried y dogfennau a chyflwyno ei sylwadau i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad.